## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 26 Mawrth 2003

## Cynigion a gyflwynwyd ar 19 Mawrth 2003

**Y Ddadl Fer - NDM1418 David Davies (Mynwy);** Rhaid cadw Dyffryn Wysg i genedlaethau'r dyfodol fedru ei fwynhau.

**NDM1425 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003; ac

b) yn cymeradwyo Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2003;

2.
Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2003-2004) (Cymru) 2003; ac

b) Yn cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2003 - 04) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003.

3.
Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru), 2003 ac

b) Yn cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003.

4.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003; ac

b) Yn cymeradwyo Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth

2003.

**NDM1426 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2003.

**NDM1427 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2003.

**NDM1428 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (Diwygio) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003.

**NDM1429 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (Diwygio) 2003;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003.

**NDM1430 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

**NDM1431 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

**NDM1432 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

**NDM1433 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a'r Arfarniad Rheoliadol, y gosodwyd copi o'r ddau ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mawrth 2003.

**NDM1434 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Diystyru Adnoddau) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

**NDM1435 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Diystyru Adnoddau) (Cymru) 2003; a

2. Yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a'r Arfarniad Rheoliadol, y gosodwyd copi o'r ddau ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

**NDM1436 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003.

**NDM1437 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) ac

2. Yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003.

**NDM1438 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2003.

**NDM1439 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18

Mawrth 2003, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru)2003; ac

2. Yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2003 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy’r e-bost ar 19 Mawrth 2003.

**NDM1440 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

**NDM1441 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2003; osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Chwefror 2003; ac

2. Yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a'r Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

**NDM1442 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy’r e-bost ar 19 Mawrth 2003.

**NDM1443 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy’r e-bost ar 19 Mawrth 2003.

*[Sylwer: Nid oes adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau wedi'i osod ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii)].*

**NDM1444 Edwina Hart (Gwyr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.4, yn mabwysiadu'r gyllideb atodol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2003-2004, 2004-2005 a 2005-2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 18 Mawrth 2003.

*Dyma'r dolenni Rhyngrwyd sy'n arwain at y Gyllideb Atodol.* http://www.cymru.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/budget2002/budget2003-2006-w.pdf

http://www.wales.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/budget2002/budget2003-2006-e.pdf

**NDM1445 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r adroddiad ar hynt datblygu cynaliadwy yn 2002-03, a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 19 Mawrth 2003, yn cydnabod y cynnydd da a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi adroddiad terfynol yn ystod Ebrill 2003, wedi'i seilio ar y ddogfen hon.

## Gwelliannau i Orchmynion a Gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2003

**Cyfeirnod y Cynnig NDM1437**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliant canlynol i Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2003, y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003.

**Gwelliant**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
**David Melding (Canol De Cymru)**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**

Yn Rheoliad 2, dileu '£17.80' ac yn ei le rhoi '£20.00'.

*Mae'r datganiad canlynol wedi'i gyflwyno o dan Reol Sefydlog 22.16 (ii) mewn cysylltiad â'r*

*gwelliant uchod er mwyn esbonio ei ddiben a'i oblygiadau o ran cost:*

**Dadansoddiad o Gost a Manteision ar gyfer Gwelliant i Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2003**

**1. Cost**

Cynyddu o £17.80 i £20.00:

Cost £1.8 miliwn.

Mae'r cynnydd arfaethedig yn y rheoliad drafft wedi'i gynnwys yn y ffigurau ar gyfer y setliad refeniw cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol. Os bydd y gwelliant yn cael ei dderbyn, bydd angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyllido awdurdodau lleol trwy grant arbennig, gan wneud hynny ar draul cyllidebau eraill er mwyn talu'r costau ychwanegol.

**2. Manteision**

Bydd pobl mewn gofal preswyl ar eu hennill o gael swm wedi'i warantu o £20 tuag at eu hanghenion personol.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 21 Mawrth 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1445**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl '19 Mawrth 2003' a rhoi yn eu lle;

Yn gresynu at fethiant y Llywodraeth i;

a) gyflwyno'r adroddiad terfynol mewn pryd i'r Cynulliad gynnal dadl arno ac;

b) i gwrdd â'r dyddiadau terfyn a nodir yn y Cynllun Gweithredu.

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu 'yn cydnabod y cynnydd da a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf',

## Gwelliannau i Orchmynion a Gyflwynwyd ar 24 Mawrth 2003

**Cyfeirnod y Cynnig NDM1439**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003, y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2003.

**Gwelliant**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**
**Geraint Davies (Rhondda)**

Yn rheoliad 2(3), dileu £20,000 ac yn ei le rhoi £25,000

*Mae'r datganiad canlynol wedi'i gyflwyno o dan Reol Sefydlog 22.16 (ii) mewn cysylltiad â'r gwelliant uchod er mwyn esbonio ei ddiben a'i oblygiadau o ran cost:*

**Dadansoddiad o Gost a Manteision ar gyfer Gwelliant i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003**

**1. Amcan**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud ag asesu gallu person i dalu am lety a drefnwyd gan awdurdodau lleol. Diben y gwelliant hwn yw cynyddu'r terfyn cyfalaf uchaf o £19,000 i £25,000. Ni chaiff awdurdodau lleol gyfrannu at gostau gofal y preswylwyr yn uwch na'r terfyn hwn.

**2. Goblygiadau o ran Cost**

Gweler Atodiad A (isod).

**3. Cyfiawnhad**

O dan Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 a'r gwelliannau a ddilynodd, ni all awdurdodau lleol wneud cyfraniad ariannol tuag at gostau gofal preswylwyr sydd ag

asedau, gan gynnwys gwerth eu cartref, sy'n uwch na'r terfyn cyfalaf uchaf o £19,000. Cytunwn â'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Hirdymor fod y trefniadau ar gyfer y prawf moddion yn gosod cosb rhy drom, a chefnogwn Opsiwn 2 a amlinellir yn Atodiad A.

"People feel strongly that to impose means tests on them when they are old, when many of them have sought to avoid it during their working lives, is particularly insidious and unfair. [These views] require a positive response of some kind."
(Y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Hirdymor 6.13)

Dangosodd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn fod y system gyfredol yn mynnu bod pobl ar incwm rhesymol yn gwneud eu hunain yn dlawd cyn iddynt fod yn gymwys am gymorth gan yr awdurdodau lleol.

Bydd cynyddu cymhorthdal cyhoeddus o dan Opsiwn 2 yn rhoi mwy o gymorth i bobl drwy system sy'n ymddangos yn un gymhleth ac anghyson iawn. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan y Joseph Rowntree Foundation nad yw awdurdodau yn monitro asedau unigolyn mewn llawer o achosion, fel bod llawer o bobl o bosibl wedi parhau i orfod talu'r swm llawn pan oeddent mewn gwirionedd yn gymwys am rywfaint o gymorth gan y wladwriaeth.

Gall y Cynulliad Cenedlaethol ddangos ei ymrwymiad i bobl mewn gofal preswyl ymhellach drwy fabwysiadu ein hargymhelliad.

## Atodiad A

| CATEGORI'R GOST | OPSIWN 1 | OPSIWN 2 |
|---|---|---|
| **(costau blynyddol ac eithrio lle nodir hynny)** | Cynyddu'r terfynau cyfalaf o £11,750 (isaf) a £19,000 (uchaf) i £12,250 (isaf) a £20,000 (uchaf). | Cynyddu'r terfynau cyfalaf o £11,750 (isaf) a £19,000 (uchaf) i £12,250 (isaf) a £25,000 (uchaf). |
| Costau uniongyrchol<br><br>(Costau i'r Cynulliad sydd wedi'u priodoli'n uniongyrchol i'r opsiwn) | **Costau cyllido o £600,000 ar gyfartaledd. Mae'r costau yn Rheoliad Drafft y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**<br><br>**Gweler HSS-03-03 ar dudalen y fewnrwyd:**<br><br>**http://cynulliad/wcommittees/Health%20&%20Social%20Services/Meetings%20-%202003/HSS-02-03%20(5%20Feb)/HSS-02-03(p.3)_w.html** | **Costau cyllido o £3.2 miliwn ar gyfartaledd. Costau a nodwyd mewn ymateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r gwelliant a gynigiwyd.**<br><br>Gall costau gynyddu'n gyflymach na chwyddiant yn y dyfodol os yw'r ffactorau demograffig yn golygu y bydd mwy o bobl |

| | | |
|---|---|---|
| | Gall costau gynyddu'n gyflymach na chwyddiant yn y dyfodol os yw'r ffactorau demograffig yn golygu y bydd mwy o bobl oedrannus yn mynd i fyw mewn cartrefi preswyl.<br><br>Os yw'r terfynau cyfalaf yn wahanol iawn i'r rhai mewn ardaloedd eraill o'r DU, gall pobl o rannau eraill o'r DU sydd wedi ymddeol symud i Gymru er mwyn elwa arnynt. Gallai hyn gynyddu costau Cymorth Gwladol, a gwariant arall gan y Cynulliad yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag oedran. | oedrannus yn mynd i fyw mewn cartrefi preswyl.<br><br>Os yw'r terfynau cyfalaf yn wahanol iawn i'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU, gall pobl o rannau eraill o'r DU sydd wedi ymddeol symud i Gymru er mwyn elwa arnynt. Gallai hyn gynyddu costau Cymorth Gwladol, a gwariant arall gan y Cynulliad yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag oedran. Dylai Ceteris paribus, y terfynau cyfalaf uwch yn opsiwn 2, olygu bod nifer uwch o bobl sydd wedi ymddeol o bosibl yn symud i Gymru nag yn achos opsiwn 1, gan olygu costau uwch felly. |
| Costau anuniongyrchol<br><br>(Costau i'r Cynulliad na ellir eu priodoli'n uniongyrchol) | Dim wedi'u nodi | Dim wedi'u nodi |
| Costau cyfle | Dim wedi'u nodi | Gall y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol wynebu costau gweinyddol ychwanegol os bydd y gwelliant i gyflwyno'r rheoliad yn golygu oedi.<br><br>Gall y Cynulliad a'r Awdurdodau Lleol wynebu costau gweinyddol ychwanegol sydd ynghlwm â gweinyddu cyllid ychwanegol y tu allan i'r lwfans chwyddiant sylfaenol yn y setliad refeniw. |

| CATEGORI'R GOST | OPSIWN 1 | OPSIWN 2 |
|---|---|---|
| Costau eraill (gan gynnwys costau ar gyrff eraill a chostau sydd heb eu meintoli) | Mae preswylwyr a darpar breswylwyr yn newid y modd y maent yn gwario arian er mwyn lleihau eu cynilion i gael terfyn cyfalaf mwy ffafriol.<br><br>Y costau gweinyddol ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddelio â mwy o breswylwyr sy'n dod o fewn y terfynau cyfalaf. | Mae preswylwyr a darpar breswylwyr yn newid y modd y maent yn gwario arian er mwyn lleihau eu cynilion i gael terfyn cyfalaf mwy ffafriol ond nid i'r un graddau ag opsiwn 1.<br><br>Y costau gweinyddol ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddelio â mwy o breswylwyr sy'n dod o fewn y terfynau cyfalaf. Mae'r terfynau cyfalaf uwch nag Opsiwn 1 yn awgrymu mwy o gostau gweinyddol i'w talu nag yn Opsiwn 1. |
| Cyfanswm costau (gan gynnwys costau sydd heb eu meintoli) | £600,000 o gostau uniongyrchol ar gyfartaledd. Costau Anuniongyrchol, costau cyfle a chostau eraill sydd heb eu meintoli | £3.2 miliwn o gostau uniongyrchol ar gyfartaledd. Costau Anuniongyrchol, costau cyfle a chostau eraill sydd heb eu meintoli |